**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**Y BIL OEDOLION TERFYNOL SÂL (DIWEDD OES)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru mewn perthynas ag unrhyw Fil Aelod Preifat y DU, sydd o dan ystyriaeth yn Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Ebrill 2025 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 4 Gorffennaf 2025.

3. Cwblhaodd y Bil y cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mehefin 2025. Cynhaliwyd y Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mehefin 2025 a chynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad dros ddwy sesiwn ar 12 a 19 Medi 2025. Mae'r Cyfnod Pwyllgor bellach wedi dechrau, a chynhaliwyd y sesiwn gyntaf ar 14 Tachwedd 2025. Mae hyn yn dilyn ystyriaeth o'r Bil gan Bwyllgor Dethol drwy gydol mis Hydref 2025 ac yn nodi dechrau craffu manwl ar gymalau unigol a gwelliannau arfaethedig. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn ymdrin â gwelliannau a gynigiwyd gan Noddwr y Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil ar gael yma: Y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

**Gwelliannau**

4. Rhwng 14 Tachwedd 2025 ac 18 Rhagfyr 2025, mae cyfanswm o 1,159 o welliannau wedi'u cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi, a disgwylir i'r nifer hwn gynyddu wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r Cyfnod Pwyllgor. Hyd at 16 Rhagfyr 2025, mae Noddwr y Bil wedi cyflwyno 36 o welliannau. O blith y rhain, nodwyd bod 5 o welliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae'r holl welliannau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Bil.

5. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ar adeg pan fo'r gwelliannau a nodwyd uchod wedi'u cyflwyno gan Noddwr y Bil ond na chytunwyd arnynt yn ffurfiol gan Dŷ'r Arglwyddi eto. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer eithriadol o uchel o welliannau sy'n cael eu hystyried ac amserlen estynedig y Cyfnod Pwyllgor. Y bwriad wrth osod y Memorandwm ar y cam hwn yw sicrhau bod Senedd Cymru yn cael cyfle ystyrlon i graffu ar y gwelliannau arfaethedig sydd fwyaf tebygol o ymwneud â materion datganoledig, ac i gynnal dadl arnynt. Y bwriad hefyd yw lliniaru'r risg na ellid ceisio cydsyniad o fewn yr amserlen seneddol sydd ar gael pe bai'r Memorandwm yn cael ei ohirio tan gyfnodau diweddarach y Bil.

6. Disgrifir y gwelliannau sy'n gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ym mharagraffau 13 i 16 isod.

## Amcan(ion) Polisi

7. Mae a wnelo amcan y polisi â dewis ar ddiwedd oes, i ganiatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn niwtral ynglŷn â'r mater, gan nodi'r confensiwn hirsefydlog ar gyfer materion cydwybod. Dyroddwyd canllawiau i Weinidogion Llywodraeth y DU ar 3 Hydref 2024 yn nodi y byddai Llywodraeth y DU felly'n parhau i fod yn niwtral ynglŷn â hynt y Bil a'r mater marw â chymorth.

## Crynodeb o'r Bil

8. Bil Aelod Preifat yw'r Bil, a noddir gan Kim Leadbeater AS yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Arglwydd Falconer o Thoroton yn Nhŷ'r Arglwyddi.

9. Ei nod yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

10. Darparwyd crynodeb o ddarpariaethau'r Bil yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol, ac mae'n dal yn gywir. Dylid darllen y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ochr yn ochr â'r crynodebau hynny, sy'n parhau i adlewyrchu nodweddion allweddol a chwmpas y Bil.

## Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol cyntaf

11. Ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar 9 Ebrill 2025 a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 4 Gorffennaf 2025, mae'r Bil wedi cwblhau pob un o gyfnodau Tŷ'r Cyffredin ac wedi symud ymlaen i Dŷ'r Arglwyddi. Cafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 23 Mehefin 2025, a chynhaliwyd ei Ail Ddarlleniad dros ddwy sesiwn ar 12 a 19 Medi. Dechreuodd y Cyfnod Pwyllgor ar 14 Tachwedd 2025 ac ar hyn o bryd disgwylir iddo ddod i ben ar 24 Ebrill 2026. Rhagwelir y bydd ei Gyfnod Adrodd a'i Drydydd Darlleniad yn dechrau yn fuan wedi hynny.

## Gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor y mae angen cydsyniad ar eu cyfer os cytunir arnynt

12. Mae ein hasesiad o'r Bil fel y'i diwygiwyd hyd yma (hyd at 18 Rhagfyr 2025) yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi wedi dod i'r casgliad bod y prawf yn Rheol Sefydlog 29 wedi'i fodloni a bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn cysylltiad â gwelliannau i gymalau 47, 49, 50 a 55. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau hyn yn y Bil sy'n bodloni'r prawf o dan RhS 29.2(iii) ac sydd felly'n sbarduno'r angen am gydsyniad.

13. **<u>Cymal 47 (fel y'i diwygiwyd gan welliant 784) – Adrodd ar Weithredu'r Ddeddf.</u>** Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio a chyhoeddi, a gosod gerbron Senedd y DU, adroddiad ar weithredu'r Ddeddf ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, gan gynnwys y cynnydd a wnaed a'r cynlluniau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae'r gwelliant yn mewnosod is-adran newydd (3A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth lunio adroddiad o dan yr adran hon.

14. **<u>Cymal 49 (fel y'i diwygiwyd gan welliannau 804 a 809) – Monitro gan y Comisiynydd.</u>** Mae cymal 49 yn gosod dyletswydd ar y Comisiynydd i fonitro gweithrediad y Ddeddf, gan gynnwys cydymffurfio â'i darpariaeth ac ag unrhyw reoliadau neu god ymarfer a wneir odani. Rhaid i'r Comisiynydd ymchwilio i faterion a atgyfeiriwyd gan awdurdod cenedlaethol priodol a chyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y Ddeddf i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth benodol, megis achlysuron pan nad oedd asesiadau cymhwystra yn bodloni gofynion statudol, achlysuron pan wrthododd paneli roi tystysgrifau, a chymhwysiad y Ddeddf mewn perthynas â phobl â nodweddion gwarchodedig. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd ymgynghori â Phrif Swyddogion Meddygol Cymru a Lloegr a rhanddeiliaid perthnasol wrth lunio'r adroddiad. Mae'r gwelliant cyntaf (804) yn ychwanegu gofyniad newydd bod rhaid i adroddiad blynyddol y Comisiynydd gynnwys adroddiad diweddaraf y Bwrdd Cynghori ar Anabledd, a sefydlir o dan y cymal newydd sy'n disodli Cymal 48. Mae'r ail welliant (809) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Bwrdd Cynghori ar Anabledd wrth lunio'r adroddiad blynyddol.

15. **<u>Cymal 50 (fel y'i diwygiwyd gan welliant 824) – Adolygu'r Ddeddf hon.</u>** Mae Cymal 50 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ystod y 12 mis ar ôl y cyfnod pum mlynedd cychwynnol ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio, gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf, llunio adroddiad ar yr adolygiad hwnnw, a chyhoeddi’r adroddiad a’i osod gerbron Senedd y DU. Rhaid i'r adolygiad asesu i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cyflawni ei nod o ganiatáu i oedolion terfynol wael, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu, ofyn am gymorth a chael cymorth i ddod â'u bywydau i ben, a rhaid iddo gynnwys gwerthusiadau o wasanaethau gofal lliniarol a diwedd oes, yr effaith ar bobl ag anableddau dysgu, ac unrhyw bryderon a godwyd am weithrediad y Ddeddf, ynghyd ag ymateb ac argymhellion yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r gwelliant yn ychwanegu gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth gynnal yr adolygiad o dan is-adran (1)(a).

16. **<u>Cymal 55 (fel y'i diwygiwyd gan welliant heb rif, i'w gadarnhau)</u> – Dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau.** Mae cymal 42 (Gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol: Cymru) yn gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru. Mae cymal 42(1) yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch gwasanaethau marw â

chymorth yn wirfoddol, gan gynnwys sicrhau trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath. Caiff rheoliadau o dan y cymal hwn gynnwys unrhyw ddarpariaeth a allai gael ei gwneud drwy Ddeddf gan Senedd Cymru ac a fyddai o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae cymal 55 (dyletswydd i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau) yn gosod gofynion ymgynghori ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau penodedig o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod is-adran newydd (3) yng nghymal 55 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau o dan adran 42(1), ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

17. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn a byddaf yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r sefyllfa hon wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy weddill y cyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

18. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 12 uchod, fy asesiad i yw bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â gwelliannau i gymalau 47, 49, 50 a 55.

**Darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

19. Nod y Bil hwn yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

20. Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn cyflawni hyn drwyddo yw drwy ddiwygiadau i Ddeddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu gan Atodlen 7B.

21. Mae cymalau 47, 49, 50 a 55, fel y bwriedir eu diwygio gan Noddwr y Bil yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Goblygiadau Ariannol**

22. Mae goblygiadau ariannol wedi'u nodi yn asesiad effaith Llywodraeth y DU, fel y nodwyd eisoes yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys costau amcangyfrifedig ar gyfer Cymru a Lloegr, heb unrhyw ddadansoddiad penodol ar gyfer Cymru. Mae'r amcangyfrifon ariannol, yn ogystal â niferoedd y ceiswyr a'r marwolaethau â chymorth a ragwelir ar gyfer Cymru, yn parhau i fod fel yr amlinellwyd yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cynharach hynny. Byddwn yn parhau i ystyried unrhyw oblygiadau ariannol posibl wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU.

**Casgliad**

23. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn niwtral ynglŷn â'r mater marw â chymorth yn wirfoddol, ac felly hefyd ynglŷn â phriodoldeb y mater hwn a phriodoldeb ei gynnwys mewn Bil gan y DU.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**23 Rhagfyr 2025**